

PWYLLGOR:	IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	23 Ionawr 2023
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - BONA PIZZA, 23 Ffordd CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD LL57 2EU
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1 CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Bona Pizza, 23 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd LL57 2EU. Mae'r ymgeiswyr Mr Salim Hamdance a Kifl Sohl yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer siop bwyd poeth i'w cario allan sy'n gwerthu Pitsa, Kebabs, Byrgyrs a Sglodion.
- 1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â darparu lluniaeth hwyr yn y nos ar ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedadwy:

Oriau Agor:

Dydd Sul 16:00 - 02:30

Dydd Llun 16:00 - 03:00

Dydd Mawrth 16:00 - 02:30

Dydd Mercher 16:00 - 03:00

Dydd Iau 16:00 - 02:30

Dydd Gwener 16:00 - 03:30

Dydd Sadwrn 16:00 - 03:30

Gweithgareddau Trwyddedadwy:

Lluniaeth Hwyr Yn Y Nos: Ar ac oddi ar yr eiddo.

Dydd Sul 16:00 - 02:30

Dydd Llun 16:00 - 03:00

Dydd Mawrth 16:00 - 02:30

Dydd Mercher 16:00 - 03:00

Dydd Iau 16:00 - 02:30

Dydd Gwener 16:00 - 03:30

Dydd Sadwrn 16:00 - 03:30

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Diogelwch trwyddedig preifat o hanner nos tra bydd y busnes ar agor.
- Ni fydd staff yn caniatáu gweiddi, ymddygiad bygythiol o fewn neu yn agos i'r eiddo.
- Bydd yr heddlu yn cael eu galw os fydd unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau ar ôl i staff ofyn iddynt yn gwrtais i ymatal o'r fath ymddygiad.
- Mae'r ymgeisydd yn nodi y bydd ganddynt systemau a phrotocolau gweithredol i gadw'r cyhoedd yn ddiogel - fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion yn cael eu darparu y tu hwnt i'r datganiad cyffredinol hwn o fwriad,
- Mae'r ymgeisydd yn nodi fod diogelwch y cyhoedd o'r pwysigrwydd pennaf ac mae hyn yn ymestyn i staff, personél diogelwch, cwsmeriaid, y cyhoedd yn gyffredinol ac unrhyw un y gallai gael eu heffeithio.
- Bydd arwyddion wedi'u darparu yn nodi fod TCC yn weithredol ac na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef a bydd yn cael ei adrodd.

- Bydd unigolion sy'n peri niwsans cyhoeddus yn cael eu gwahardd
- Ni chaniateir i blant gael mynediad i'r siop ar ôl 9yh oni bai eu bod gydag oedolyn cyfrifol.

Gweler rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Heddlu Gogledd Cymru	Amodau a Gynigir
Aelod o'r Cyhoedd	Gwrthwynebiad
Aelodau o'r Cyhoedd	Gwrthwynebiadau (fel deiseb)

3.1 Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn argymhell cynnwys yr amodau isod i'w cynnwys ar y drwydded eiddo fel a ganlyn:

Atal Trosedd ac Anhrefn:

- TCC yn weithredol ar yr eiddo.
- TCC i oruchwylio'r holl ardaloedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac eithrio'r toiledau.
- TCC wedi'i ddarparu, ac ar gael i'w gwyllo ar gais Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu.
- Yr eiddo yn darparu copïau o TCC, wedi'i lawrlwytho, ei recordio neu ei hanfon drwy fformat ar-lein ar gais Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu.

3.2 Gwrthwynebiadau gan Aelodau o'r Cyhoedd.

Gweler y 2 llythyr atodol gan aelodau o'r cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais.

Un unigolyn yn byw yn agos at Sgwâr Britannia, yn gwrthwynebu ar sail niwsans cyhoeddus, yn benodol mewn perthynas â'r cynnydd mewn sŵn yn hwyr yn y nos gan gwsmeriaid yn ymweld â'r eiddo; yn ogystal â'r niwsans arogleuon o goginio hwyr yn y nos

Mae'r llythyr arall yn gwrthwynebu yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas â'r Amcanion Trwyddedu Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd. Cyflwynir y llythyr hwn ar ffurf deiseb.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir i'r Pwyllgor ystyried y gwrthwynebiadau, a chymeradwyo'r cais yn unol â sylwadau'r Heddlu, a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.